# “Dysgu siarad”
# Pecyn Dechrau’n Deg i rieni

# “Learning To Talk”
# A Flying Start pack for parents

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

“Siarad sydd angen i ni wneud a byddaf yn dysgu’r oll ganoch.”

“Talking is what we need to do and I will learn it all from you.”



Dechrau’n Deg
Flying Start

WG24132

# “Siarad a sgwrsio sydd angen o hyd – ti yw’r athro gorau yn y byd!”

Mae dysgu siarad yn un o’r sgiliau pwysicaf y mae angen i blant ei ddatblygu cyn dechrau’r ysgol. Mae wedi’i brofi bod y gallu i siarad ac i gyfathrebu yn helpu plant i wneud ffrindiau, i ddysgu darllen ac i gael gwell cyfleoedd mewn bywyd.

Hyd yn oed pan fyddan nhw yn y groth, mae babanod yn gallu clywed eich llais, a byddan nhw’n ymateb i leisiau cyfarwydd o’r eiliad y cânt eu geni. Mae gan ymennydd baban botensial aruthrol i ddysgu. Rydyn ni’n gwybod bod y ddwy flynedd gyntaf yn bwysig iawn o ran helpu babanod i ddysgu’r holl sgiliau sylfaenol y mae eu hangen arnyn nhw er mwyn siarad. Mae’r sgiliau hynny’n cynnwys edrych, gwrando, dynwared a gwneud synau cynnar. Erbyn iddyn nhw gyrraedd eu dwy oed, gall plant bach ddeall cyfarwyddiadau syml, defnyddio rhyw 50 o eiriau a rhoi dau air at ei gilydd.


Mae babanod a phlant ifanc yn treulio’r rhan fwyaf o’u hamser gyda’u mamau a’u tadau a gydag aelodau eraill o’r teulu, felly chi yw’r bobl orau i hybu eu sgiliau cyfathrebu ac i ddatblygu eu gallu i siarad. Yn ôl ymchwil, mae faint y mae mamau a thadau yn siarad gyda’u plant yn cael dylanwad mawr ar allu’r plant i siarad. Drwy siarad ac ymateb i’ch baban a’ch plentyn ifanc, yn ogystal â chanu, chwarae a darllen gyda’ch gilydd, byddwch chi’n helpu baban bach sy’n preblan i dyfu’n blentyn bach hapus, iach a siaradus.

Mae’r pecyn hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor i famau a thadau er mwyn ichi helpu’ch plentyn i ddysgu siarad – o’r dechrau un pan fydd yn y groth i’r diwrnod y bydd yn dechrau’r ysgol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# “Gwna dy waith cyn dechrau'r daith.”

- Dw i'n gallu clywed dy lais unwaith y byddi di 24 wythnos yn feichiog.
- Dw i'n gallu adnabod y lleisiau roeddwn i'n eu clywed yn y groth yn fuan iawn ar ôl imi gael fy ngeni.
- Dw i wrth fy modd yn dy glywed yn canu.



www.cymru.gov.uk


Dechrau'n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Siarad yr iaith o ddechrau’r daith.”

- Dw i’n gallu dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill o’r eiliad y caf fy ngeni.
- Os dw i’n ddwyieithog o’r dechrau un, mae’n haws imi ddysgu ieithoedd eraill.
- Galla i ddysgu’n hiaith a’n diwylliant ni oddi wrthyt ti.




Dechrau’n Deg
Flying Start

# Dan 2 flwydd oed

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Edrych arnat ti sydd orau i mi.”

- Cyn imi allu siarad, dw i’n gallu cyfathrebu â ti gan ddefnyddio fy llygaid, drwy wenu, gyrglan a chrïo.
- Pan fyddwn ni wyneb yn wyneb, rwyt ti’n gallu gweld beth dw i’n trïo’i ddweud wrthyt.
- Cofia ddod yn agos wrth siarad â mi.



Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# “Cân fach dwt wrth newid fy nghlwt.”

- Dw i’n hoffi clywed yr un gân dro ar ôl tro.

**Mi welais Jac y do.**

Mi welais Jac y do,
Yn eistedd ar y to,
Het wen ar ei ben a dwy goes bren,
Ho-ho, ho-ho, ho-ho.

**Clap, clap, un, dau, tri.**

Clap, clap, un, dau, tri;
Clap, clap, un, dau, tri;
Clap, clap, un, dau, tri;
Troi a throi ein dwylo.



Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Siarad sydd raid a hynny’n ddi-baid.”

- Mae angen imi glywed yr un geiriau dro ar ôl tro er mwyn imi fedru eu cofio.
- Dylet ti ailadrodd y synau dw i’n eu gwneud neu’r geiriau dw i’n eu dweud.
- Dywed wrthyf beth y galla i ei weld a beth sydd o’m cwmpas.



Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# “Diffodd y sgrin a rho fi ar dy lin.”

- Cofia ddiffodd y teledu, cerddoriaeth a’r cyfrifiadur pan fyddwn ni’n siarad â’n gilydd.
- Pan fyddwn n’n siarad, rho’r ffôn ’na yn dy boced.
- Dw i ddim yn gallu gwrando ar ddau beth ar yr un pryd.



www.cymru.gov.uk


Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Darllen stori i’m diddori.”

- Dw i ddim yn gallu darllen eto ond dw i wrth fy modd yn edrych ar luniau ac yn gwrando arnat ti.
- Paid â phoeni am y geiriau i gyd. Gelli di siarad am y lluniau.
- Dw i wrth fy modd pan fyddi di’n gwneud lleisiau gwirion wrth ddweud stori wrthyf.



Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Chwarae’n rhydd bob dydd.”

- Chwarae gyda ti yw fy hoff gêm… beth am chwarae pîpo.
- Wrth gael bwyd, wrth newid clwt ac wrth gael bath. Gallwn ni chwarae unrhyw bryd.
- Cofia siarad â mi wrth inni chwarae er mwyn imi gael dysgu geiriau newydd.




Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Dim dymi ’n rhy hir, imi gael siarad yn glir!”

- Mae’n anodd imi barablu a siarad os oes dymi yn fy ngheg.
- Dim ond wrth fynd i gysgu mae angen dymi arna i.
- Does dim angen dymi arna i unwaith y bydda i’n flwydd oed.



Dechrau’n Deg
Flying Start

# Dros 2 flwydd oed

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Edrych arnat ti sydd orau i mi.”

- Edrycha arna i pan fydda i’n siarad â ti.
- Mae’n haws inni glywed a deall ein gilydd pan fyddwn ni wyneb yn wyneb.




Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# "Cân fach dwt wrth newid fy nghlwt."

- Dw i'n gallu copïo'r geiriau a'r symudiadau mewn caneuon a rhigymau.
- Dw i dal yn hoffi clywed yr un caneuon  dro ar ôl tro.
- Os dw i'n gwybod llawer o ganeuon a rhigymau, bydd yn haws imi ddysgu darllen.



Dechrau'n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# “Cân fach dwt wrth newid fy nghlwt.”

www.cymru.gov.uk

**Dau Dderyn Bach.**

Dau dderyn bach ar ben y to,
Dyma Jim a dymo Jo,
Dos i ffwrdd Jim, dos i ffwrdd Jo,
Tyrd yn ôl Jim, tyrd yn ôl Jo.

**Troi ein dwylo.**

Troi ein dwylo,
Troi ein dwylo,
Troi a throi a throi fel hyn.
Curo’n dwylo,
Curo’n dwylo,
Clap a chlap a chlap fel hyn.


Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Siarad sydd raid a hynny’n ddi-baid.”

- Cofia ddweud popeth wrthyf am yr hyn dw i’n gallu ei weld, ei glywed, ei gyffwrdd, ei flasu a’i arogleuo.
- Rho gyfle inni siarad yn ein tro.
- Efallai bydd angen mwy o amser arna i ddewis a defnyddio fy ngeiriau. Cofia roi amser imi siarad.



Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Diffodd y sgrin a rho fi ar dy lin.”

- Cofia ddiffodd y teledu, cerddoriaeth a’r cyfrifiadur pan fyddwn ni’n siarad a chwarae gyda’n gilydd.
- Mae’n bwysig ein bod yn siarad. Rho’r ffôn ’na yn dy boced.
- Alla i ddim canolbwyntio am hir os oes llawer o bethau’n digwydd ar yr un pryd.



Dechrau’n Deg
Flying Start

# “Darllen stori i’m diddori.”

- Dw i dal ddim yn gallu darllen eto ond dw i wrth fy modd yn ymuno pan fyddi di’n darllen llyfr neu stori.
- Mae geiriau ym mhob man. Dangosa nhw imi.
- Dw i wrth fy modd yn clywed fy hoff storïau dro ar ôl tro.




Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Chwarae’n rhydd bob dydd.”

- Helpa fi i ddatblygu fy nychymyg. Beth am chwarae cogio?
- Dw i’n dysgu chwarae gyda fy ffrindiau ond mae angen dy help di arnon ni weithiau.
- Dw i’n chwarae am fwy o amser os ydw i’n cael dewis y gêm.



Dechrau’n Deg
Flying Start

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# “Dim dymi ’n rhy hir, imi gael siarad yn glir!”

- Does dim angen y dymi ’na arna i ’nawr. Dw ddim yn siarad yn glir os oes dymi yn fy ngheg.
- Os nad yw fy ngeiriau’n hollol glir, gad imi dy glywed di’n eu dweud yn iawn (paid dweud wrthyf ’mod i’n anghywir, da ti!)



Dechrau’n Deg
Flying Start